**Beth i'w ddisgwyl wrth wylio'r perfformiad**

Pan fyddwch chi'n cyrraedd y theatr, bydd **tywysydd** yn mynd â chi i'r man lle byddwch chi'n eistedd ar gyfer y perfformiad. Dyma'r amser gorau i chi fynd i'r toiled os oes angen i chi fynd, ond fe allwch chi ofyn i athro/athrawes os ydych chi am fynd unrhyw bryd yn ystod y sioe os oes angen. Fe allwch chi ddod â dŵr potel i'r theatr os oes angen diod arnoch chi. Mae'r perfformiad yn para awr heb unrhyw egwyl.

Pan fydd y perfformiad yn dechrau, bydd y goleuadau uwch eich pen yn diffodd a bydd goleuadau'r llwyfan yn goleuo. Trwy gydol y sioe, efallai y bydd y goleuadau'n newid lliw ond ni fydd unrhyw oleuadau sy'n fflachio. Ar y llwyfan, fe welwch chi **bedwar cerddor**. Bydd rhai o'r offerynnau maen nhw'n eu chwarae yn swnio'n eithaf uchel, yn enwedig os ydych chi'n eistedd yn agos at y llwyfan. Os yw'r synau'n rhy uchel ac yr hoffech chi guddio'ch clustiau, yna gwnewch hynny, ni fydd ots gan ein cerddorion! Yn ogystal â'n cerddorion, bydd ganddon ni **storïwr** a fydd yn eich arwain drwy'r stori. Efallai y bydd adegau pan fydd hi'n gofyn i chi ailadrodd rhywbeth yn ôl iddi neu ymuno, felly byddwch yn barod i weiddi ac i eraill o'ch cwmpas weiddi hefyd. Yn ystod y perfformiad, byddwch chi'n clywed **cerddoriaeth**. Weithiau bydd yn chwarae wrth i'r storïwr siarad ac weithiau bydd yn chwarae ar ei phen ei hun.

Ar ryw adeg yn ystod y sioe, bydd rhai plant yn cael eu gofyn i fynd ar y llwyfan i ganu cân maen nhw wedi'i hysgrifennu. Efallai mai dosbarth o'ch ysgol neu ysgol wahanol fydd y rhain. Rydyn ni'n siŵr eu bod nhw'n edrych ymlaen at rannu eu cân gyda chi, felly byddwch yn barod i eistedd a gwrando a rhoi **cymeradwyaeth** iddyn nhw pan fyddan nhw'n gorffen ac yn **moesymgrymu**.

Ar ddiwedd y sioe, bydd y cerddorion a'r storïwr yn gadael y llwyfan, bydd y goleuadau ar y llwyfan yn pylu, a'r goleuadau uwch eich pen yn troi ymlaen. Arhoswch yn eich seddi nes bydd tywysydd a'ch athrawon yn dweud wrthych mai eich tro chi yw gadael. Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwrando ar y tywyswyr a'ch athrawon fel y gallan nhw roi cyfarwyddiadau i chi ar beth i'w wneud pan fyddwch chi'n gadael.

Diolch yn fawr iawn am ddod i'n sioe ac edrychwn ymlaen at eich gweld eto!

<u>Diffiniadau</u>

**Tywysydd** – Rhywun sy'n gweithio mewn theatr a fydd yn dangos i chi ble i eistedd ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddoch chi am ble mae pethau yn y theatr. Mewn argyfwng, bydd y tywyswyr yn dweud wrthych ble i fynd.

**Cerddorion** – Enwau ein cerddorion yw Joy, sy'n chwarae'r ffidil a'r gitâr; Lynn, sy'n chwarae'r corn Ffrengig; Alis, sy'n canu'r delyn; a Darren, sy'n canu'r offerynnau taro. Os hoffech chi ddysgu mwy am yr offerynnau sy'n cael eu defnyddio a sut byddan nhw'n swnio, cymerwch olwg ar y ddogfen 'Offerynnau cerdd a ddefnyddir'.

**Storïwr** - Tamar yw enw ein Storïwr a hi fydd eich tywysydd trwy fyd y *Whispering Woods*.